Cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd ar Microsoft Teams

Ionawr 2024

Gwasanaethau Gwybodaeth a Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg

gg@aber.ac.uk / tlustaff@aber.ac.uk

Cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd ar Microsoft Teams	1
Canllawiau i'r rhai sy'n trefnu cyfarfodydd	1
Sut mae rhoi'r sianel gyfieithu ar waith mewn cyfarfod Teams lle mae gan y cyfieithydd gyfrif PA?	. 1
Sut mae rhoi'r sianel gyfieithu ar waith mewn cyfarfod Teams gyda chyfieithydd allanol?	2
Cyn y cyfarfod:	. 2
Ar ddechrau'r cyfarfod:	3
Canllawiau i gyfieithwyr	3
Canllawiau i fynychwyr	4

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â defnyddio Teams, cysylltwch â'r Gwasanaethau Gwybodaeth (<u>gg@aber.ac.uk)</u>.

Yn unol â gofynion statudol Safonau'r Gymraeg a pholisi mewnol y Brifysgol ar ddefnyddio'r Gymraeg, mae <u>Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg</u> yn darparu gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd mewn cyfarfodydd (h.y. cyfarfodydd rhithwir, hybrid ac wyneb yn wyneb).

Mae Cyfieithu ar y Pryd yn caniatáu i'r rhai sy'n mynychu ddefnyddio eu dewis iaith (e.e. Cymraeg/Saesneg) yn gwbl naturiol ac yn rhwydd mewn cyfarfodydd, pwyllgorau a digwyddiadau er enghraifft. I gael rhagor o wybodaeth, gweler tudalen we Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg neu anfonwch e-bost at <u>tlustaff@aber.ac.uk.</u>

Mae trosolwg ar gyfer defnyddio cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd Microsoft Teams ar gael trwy <u>Cymorth Microsoft</u>. Gellir defnyddio'r swyddogaeth hon ar gyfer ieithoedd eraill hefyd.

Canllawiau i'r rhai sy'n trefnu cyfarfodydd

Sut mae rhoi'r sianel gyfieithu ar waith mewn cyfarfod Teams lle mae gan y cyfieithydd gyfrif PA?

- Crëwch eich cyfarfod Teams a gwahoddwch eich mynychwyr gan gynnwys eich cyfieithydd. Gweler <u>Sut ydw i'n creu cyfarfod Teams?</u> am fwy o wybodaeth.
- Agorwch y cyfarfod Teams a dewiswch **Meeting Options/Dewisiadau'r Cyfarfod:**

Microsoft Teams meeting

Join on your computer, mobile app or room device Click here to join the meeting

Meeting ID: 318 453 309 432 Passcode: 3TzXEe Download Teams | Join on the web

Learn More | Help | Meeting options

- Bydd ffenestr y porwr yn agor
- Sgroliwch i lawr i Enable language interpretation/Galluogi cyfieithu ar y pryd ac ewch i Yes/lawn
- Rhowch enw defnyddiwr y cyfieithydd yn y blwch 'Search for interpreter'/Chwilio am gyfieithwyr' (sylwch fod angen i chi wahodd y cyfieithydd i'r cyfarfod er mwyn i chi allu ei ddewis)

Search for interpreters

• O'r gwymplen **laith Wreiddiol**, dewiswch Welsh/Cymraeg*. Ar gyfer yr **laith Darged** dewiswch English/Saesneg.

- Gwasgwch Save/Cadw
- Ar ddechrau'r cyfarfod Teams, atgoffwch bawb fod cyfieithydd ar yr alwad a bod croeso iddyn nhw siarad yn Gymraeg. Cyfeiriwch y rhai y mae angen y gwasanaeth cyfieithu arnyn nhw at y sianel gyfieithu.

Sut mae rhoi'r sianel gyfieithu ar waith mewn cyfarfod Teams gyda chyfieithydd allanol?

Sylwch nad yw'r llif gwaith uchod yn addas ar gyfer cyfrifon e-bost nad ydynt yn rhai PA. Os ydych yn defnyddio cyfieithydd allanol, dilynwch y llif gwaith isod:

Cyn y cyfarfod:

- Crëwch eich cyfarfod Teams a gwahoddwch eich mynychwyr gan gynnwys eich cyfieithydd. Gweler <u>Sut ydw i'n creu cyfarfod Teams?</u> Am fwy o wybodaeth.
- Agorwch y cyfarfod Teams a dewiswch Meeting Options/Dewisiadau'r Cyfarfod:

Microsoft Teams meeting

Join on your computer, mobile app or room device Click here to join the meeting

Meeting ID: 318 453 309 432 Passcode: 3TzXEe Download Teams | Join on the web

Learn More | Help | Meeting options

- Bydd ffenestr y porwr yn agor.
- Sgroliwch i lawr i Enable language interpretation/Galluogi cyfieithu ar y pryd ac ewch i Yes/lawn
- Pennwch aelod o staff PA i fod yn gyfieithydd. Bydd yn rhaid i chi newid y cyfieithydd i'r cyfrif nad yw'n gyfrif PA ar ddechrau'r cyfarfod.

Search for interpreters

- O'r gwymplen **laith Wreiddiol**, dewiswch Welsh/Cymraeg*. Ar gyfer yr **laith Darged** dewiswch English/Saesneg.
- Gwasgwch Save/Cadw
- Ar ddechrau'r cyfarfod Teams, atgoffwch bawb fod cyfieithydd ar yr alwad a bod croeso iddyn nhw siarad yn Gymraeg. Cyfeiriwch y rhai y mae angen y gwasanaeth cyfieithu arnyn nhw at y sianel gyfieithu (ceir cyfarwyddiadau isod).

Ar ddechrau'r cyfarfod:

Unwaith y bydd y cyfieithydd allanol wedi ymuno â'r cyfarfod:

- Cliciwch ar y ffenestr 'Pobl'
- Cliciwch ar y ... i'r dde o enw'r cyfieithydd
- Dewiswch Make Interpreter/Gwneud yn Gyfieithydd
- Newidiwch y Cyfieithydd PA yn ôl
- Cliciwch ar y ... i'r dde o'r aelod staff PA a bennwyd yn gyfieithydd gennych a dewiswch Make Attendee/Gwneud yn Fynychwr
- Gweler y recordiad hwn am arweiniad ar sut i wneud hyn.

Canllawiau i Gyfieithwyr

- Byddwch yn derbyn y gwahoddiad calendr a fydd wedi'i greu gyda chi yn gyfieithydd.
- Os ydych chi'n aelod o staff PA, ymunwch gan ddefnyddio eich manylion mewngofnodi PA
- Os gwahoddir chi i'r cyfarfod fel cyfieithydd, byddwch yn ymuno â'r sianel gyfieithu'n awtomatig

• Ni fydd y rhai yn y prif gyfarfod yn gallu eich clywed oni bai eu bod yn dewis y sianel gyfieithu, felly gwnewch yn siŵr bod gennych ryw fodd o gysylltu â chadeirydd y cyfarfod os oes gennych unrhyw gwestiynau.

Canllawiau i fynychwyr

- I wrando ar sianel y cyfieithydd, ymunwch â'r cyfarfod
- Byddwch yn cael y neges Choose language/Dewiswch iaith yn y ffenestr uchaf:



- Dewiswch yr iaith rydych chi am wrando arni o'r gwymplen (e.e. os nad ydych yn siarad Cymraeg, dewiswch English/Saesneg)
- Cadarnhewch eich dewis

Os oes angen i chi ddechrau gwrando ar y sianel gyfieithu yng nghanol cyfarfod neu ar ôl i'r opsiwn cyfieithu ar y pryd ddiflannu, ewch i **More/Mwy** ar eich bar tasgau:



• Dewiswch Language Interpretation/Cyfieithu ar y Pryd a dilynwch y camau uchod i ddewis eich iaith.

I newid yn ôl i iaith y cyfarfod:

- Dewiswch More/Mwy o'r bar tasgau a Language Interpretation/Cyfieithu ar y Pryd
- O'r gwymplen, dewiswch **Original Language/laith Wreiddiol**
- Cliciwch Confirm/Cadarnhau.

